

# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

## Taflen Ffeithiau



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Cynllun codi tâl am fagiau siopa untro



### Y Cefndir

Ers 1 Hydref 2011, rhaid talu 5c am fag siopa untro yng Nghymru. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno cynllun o'r fath, ac mae wedi cael effaith fawr ar y defnydd o fagiau siopa untro. Degnyd y ffigurau cychwynnol gan adwerthwyr yn 2012 fod rhai sectorau adwerthu yn cyflenwi mwy na 90% yn llai o fagiau siopa untro. O'r data a ddarparwyd gan Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) ar gyfer 2013, gwelwyd bod nifer y bagiau siopa untro a gyflenwir gan y prif archfarchnadoedd wedi gostwng 78% ers 2010.

### Ehangu pwerau Gweinidogion Cymru i allu codi tâl am fathau eraill o fagiau siopa

Er bod nifer y bagiau siopa untro a brynir wedi gostwng, yn ôl data WRAP, mae nifer y bagiau am oes a werthwyd rhwng 2010 a 2014 wedi cynyddu'n sylweddol. Er y rhagwelwyd y byddai cynnydd ar y dechrau wrth i siopwyr brynu bagiau y gellir eu haildefnyddio, mae Llywodraeth Cymru'n pryderu y bydd defnyddwyr nawr yn defnyddio "bagiau am oes" mwy trwchus yn hytrach na bagiau siopa untro ac yn eu taflu ymaith fel sbwriel. Mae'r Ddeddf yn rhoi mwy o bwerau i Weinidogion Cymru fel y gallan nhw godi tâl am fathau eraill o fagiau siopa megis bagiau am oes, yn ogystal a'r tâl a godir eisoes am fagiau siopa untro. Os gwelir bod cyflenwi a gwaredu'r mathau hyn o fagiau'n niweidio'r amgylchedd, bydd y Gweinidogion yn gallu defnyddio'r pwerau ychwanegol hyn.

## Dyletswydd ar fanwerthwyr i roi'r elw a godir o fagiau siopa untro i achosion da

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar bob manwerthwr i roi'r elw â wnânt o werthu bagiau siopa untro i achos da. Nid yw hi erioed wedi bod yn fwriad gan y cynllun codi tâl am fagiau siopa untro i godi arian i elusennau. Wedi dweud hynny, rhwng Hydref 2011 a Hydref 2014, amcangyfrifwyd bod rhwng £17 miliwn a £22 miliwn o arian wedi cael ei roi i achosion da yn sgil y cynllun codi 5c am fag siopa untro yng Nghymru.

Mae llawer o fanwerthwyr eisoes yn rhoi'r elw net o'r tâl i achosion da. Wedi dweud hynny, roedd Llywodraeth Cymru'n poeni bod rhai manwerthwyr yn cadw'r elw net ac yn gwneud elw ar y tâl, a chyflwynwyd darpariaethau ym Mil yr Amgylchedd oedd yn ei gwneud hi'n orfodol i fanwerthwyr roi unrhyw elw net i achosion da. Wrth lunio'r Bil, argymhellodd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd y dylai'r elw net gael ei roi i achosion da sy'n ymwneud â'r amgylchedd. Am ragor o wybodaeth ewch i: <http://gov.wales/statistics-and-research/post-implementation-review-single-use-carrier-bag-charge-wales/?skip=1&lang=cy>

Bellach, mae'n rhaid i fanwerthwyr roi eu helw net i achosion da sy'n ymwneud â gwarchod neu wella'r amgylchedd ac sydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn creu budd i Gymru gyfan neu ran ohoni. Yr unig eithriad yw os yw'r manwerthwyr eisoes wedi gwneud trefniadau i roi eu helw i achos da nad yw'n ymwneud â'r amgylchedd, er enghraifft, elusennau iechyd neu elusennau plant, a'u bod yn rhoi rhybudd i ni eu bod yn dymuno parhau â'r trefniant hwnnw. Mae manylion sut y dylid rhoi'r elw ac i bwy ac unrhyw eithriadau perthnasol wedi'u disgrifio yn y Rheoliadau newydd.

## Yr amserlen

Bydd y rhan hon o'r Ddeddf yn dod i rym yn dilyn gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru ar ddiwrnod y byddan nhw'n cytuno arno. Ar y diwrnod hwnnw, bydd yn rhaid i'r manwerthwyr (ac eithrio'r rheini sydd wedi'u heithrio) roi unrhyw elw a wnânt ar y tâl am fag siopa untro i achosion da sy'n ymwneud â'r amgylchedd.

Mae'n bosibl y bydd y rheoliadau yn berthnasol i'r tâl am fathau eraill o fagiau siopa, bagiau am oes er enghraifft, os ceir tystiolaeth sy'n profi bod y galw sydd am y bagiau hyn a'r ffaith nad yw pobl yn cael gwared arnyn nhw yn y ffordd gywir, yn niweidio'r amgylchedd.

## Rhagor o wybodaeth

Daeth y Ddeddf yn gyfraith ym mis Mawrth 2016. Gallwch ddarllen rhagor am y Ddeddf ei hun ar wefan Llywodraeth Cymru:

[www.llyw.cymru/deddfyramgylchedd](http://www.llyw.cymru/deddfyramgylchedd)

Gallwch hefyd danysgrifio i gael ein e-fwletin misol drwy anfon e-bost at:

[NRBulletin@cymru.gsi.gov.uk](mailto:NRBulletin@cymru.gsi.gov.uk)